Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
– Cyngor, Dydd Mercher, 22 Mai 2019

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
7	Cadarnhau Cofnodion	**PENDERFYNWYD : Cadarnhau Cofnodion cyfarfod y Cyngor Bwrdeistref Sirol a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.**
9	Ethol Arweinydd / Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol	**PENDERFYNWYD : Penodi'r Cynghorydd Mark Pritchard yn Arweinydd y Cyngor/Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod.** **Rheswm dros y penderfyniad** **Penodi Arweinydd y Cyngor/Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod.**
10	Penodi Dirprwy Arweinydd / Is-gadeirydd y Bwrdd Gweithredol	**PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd Hugh Jones yn Ddirprwy Arweinydd/Is-gadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod.** **Rheswm dros y penderfyniad** **Penodi Dirprwy Arweinydd y Cyngor/Is-gadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod.**
11	Penodi Aelodau i'r Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau, Pwyllgorau Craffu a Phaneli Amrywiol	**PENDERFYNWYD -** **(i) Penodi Aelodau i'r Bwrdd Gweithredol fel y nodir yn y ddogfen a gyflwynwyd, sef:** **Y Cynghorwyr Andrew Atkinson, William Baldwin, David A Bithell, Terry Evans, David Griffiths, David Kelly, Joan Lowe, Phil Wynn.**

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
		(ii) Cytuno mewn egwyddor ar feintiau a chydbwysedd gwleidyddol y pwyllgorau sefydlog a'r pwyllgorau craffu fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad (COGC/18/19). **(iii)Y bydd Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac Aelodau presennol y pwyllgorau, paneli a grwpiau yn parhau tra byddwn yn aros i roi ystyriaeth bellach i'r penodiadau mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhelir ddydd Mercher 5 Mehefin 2019 am 4.00pm.** **RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD** Penodi Aelodau i'r Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau Sefydlog, Pwyllgorau Craffu a'r amrywiol Baneli a sefydlwyd gan y Cyngor fel rhan o'i Gyfansoddiad, a phenodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion perthnasol.
12	Cynllyn y Cyngor 2019-22	**PENDERFYNWYD -** **(i) Y bydd y Cyngor yn cymeradwyo Cynllun arfaethedig y Cyngor 2019-22 (Atodiad C adroddiad CE/03/19) a'r blaenoriaethau o fewn y flwyddyn y mae'n eu nodi.** **(ii) Datblygu cynllun eglur o fewn y 12 mis nesaf ar ddatgarboneiddio, sy'n cefnogi gwaith y Cyngor ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i newid hinsawdd.** **(iii)Gwaith y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ac eraill fydd yn cefnogi Bargen**

Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Cyngor, Dydd Mercher, 22 Mai 2019

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
		Dwf Gogledd Cymru i ddarparu prosiectau carbon ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD** Adolygu blaenoriaethau'r Cyngor a nodi amcanion lles y Cyngor fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
13	Mabwysiadu Cyfansoddiad Diwygiedig	**PENDERFYNWYD – Mabwysiadu'r Cyfansoddiad diwygiedig ynghyd â'r diwygiadau pellach a amlinellir yn Atodiad 1 adroddiad COGC/14/19, a'r diwygiadau i'r cynllun dirprwyo a amlinellir yn Atodiad 2 adroddiad COGC/14/19.** **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD** Galluogi'r Cyngor i fabwysiadu Cyfansoddiad ar ffurf fwy syml, wedi'i seilio ar y model cenedlaethol diwygiedig.
14	Calendr o Gyfarfodydd 2019/2020	**PENDERFYNWYD -** **(i) Cytuno ar y calendr blynyddol arfaethedig o gyfarfodydd ar gyfer y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgorau Sefydlog yn 2019/20, gan gynnwys lle i Weithdai i'r Holl Aelodau a Datblygiad Aelodau, fel y nodir yn yr amserlen a atodwyd wrth adroddiad COGC/17/19.** **(ii) Y bydd y Pwyllgorau'n ystyried adolygu ac addasu eu hamseroedd**

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
		cychwyn eu hunain, gan roi ystyriaeth ddyledus i sicrhau presenoldeb cymaint o Aelodau ag sy'n bosib yn y Pwyllgorau unigol, a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweddarlledu. **RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD** Cymeradwyo dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd 2019/20.
15	Gwerthusiad Safle: Cyfleuster Gwaredu Daearegol	**PENDERFYNWYD – Bod yr Aelodau'n cytuno na fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cefnogi cynnal cyfleuster gwaredu daearegol yn y Fwrdeistref Sirol.** **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD** Nodi safbwynt y Cyngor yn glir cyn i unrhyw gymuned feddwl am gysylltu â'r Cyngor i geisio ei gefnogaeth wrth ystyried y posibilrwydd o gynnal cyfleuster gwaredu daearegol o fewn y fwrdeistref sirol.